

Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr



Cwricwlwm





Dylunio Cwricwlwm

*Ysgol Gymraeg
Dyffryn y Glowyr*





Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr

Nodweddion Unigryw



Cyd-destun yr Ysgol

Mae Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn ysgol unigryw o fewn ffiniau Sir Powys. Agorwyd Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn Ionawr 2013 mewn adeilad newydd gyda chyfleusterau pwrpasol. Mae 344 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol erbyn hyn gan ddechrau eu haddysg yn y dosbarth Derbyn. Ar safle'r ysgol, mae adeilad pwrpasol ar gyfer plant oed meithrin a 3/4 oed ac mae'r disgyblion hyn yn pontio i'r ysgol. Mae'r ysgol yn ysgol ardal gyda phlant yn dod o ddalgylch eang. Enwyd yr ysgol yn Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr oherwydd hanes cyfoethog diwydiant glo yr ardal leol. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Yn y dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 y Gymraeg yw prif gyfrwng y dysgu. Yn y dosbarthiadau lau, defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu gyda'r nod o alluogi'r disgyblion i ddod yn gwbl ddwyieithog erbyn amser trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Nod yr ysgol yw rhoi cyfle i bob disgybl i wireddu ei lawn botensial mewn amgylchedd gofalgarn a chefnogol. Yr ydym yn anelu at sicrhau bod ein disgyblion yn cyflawni'n safonau uchaf posibl ac yn darparu pob cymorth iddynt wireddu hyn. Yn ogystal, rhown flaenoriaeth uchel i iechyd, lles a datblygiad personol a chymdeithasol ein disgyblion er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu'n ddinasyddion aeddfed a chyfrifol i'r dyfodol.





Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr

Nodweddion Unigryw



Lleoliad

Mae Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr wedi'i lleoli mewn lleoliad darluniadwy ym Mhentref Cwmtwrch ac ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n cynnig nifer o fanteision ar gyfer cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.


Mae'r amgylchoedd naturiol yn darparu amgylchedd cyfoethog ac amrywiol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Mae tir yr ysgol, sy'n cynnwys ardal wyllt a gerddi, yr ardal leol a'r Bannau tu hwnt yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau dysgu sy'n seiliedig ar natur a'r amgylchedd. Gall ddisgyblion archwilio fflora a ffawna lleol, dysgu am wahanol ecosystemau, a chymryd rhan mewn astudiaethau maes i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u cynefin. Gallant hefyd gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol fel heicio, cyfeiriannu, a chwaraeon awyr agored, gan hybu lles corfforol a gwerthfawrogiad o fydd natur.

Yn ogystal, mae lleoliad Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn arddangos agweddau ar hanes a diwylliant Cymru. Gall ddisgyblion ymweld â thirnodau hanesyddol cyfagos, megis cestyll, adfeilion, a safleoedd archeolegol, i ddysgu am dreftadaeth gyfoethog Cymru a'i phobl. Gallant hefyd ymgysylltu â'r gymuned leol a dysgu o ddoethineb trigolion lleol sy'n gallu rhannu straeon, chwedlau, ac arferion traddodiadol, gan feithrin ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol a balchder ymhlith y disgyblion.

Hefyd, mae'r ardal leol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu ymarferol yn ymwneud ag amaethyddiaeth a ffermio, cynaliadwyedd, tyfu bwyd, gofalu am yr amgylchedd a menter a busnes.

Yn ychwanegol, mae lleoliad yr ysgol yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymunedol a dysgu cymdeithasol. Gall y disgyblion gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol lleol, mentrau gwirfoddoli, a digwyddiadau cymdeithasol, gan hyrwyddo cyfrifoldeb dinesig ac ymwybyddiaeth gymdeithasol. Gallant hefyd ryngweithio â'r cymunedau amrywiol yn yr ardal, dysgu am wahanol ddiwylliannau, ieithoedd, a thraddodiadau, a datblygu sgiliau rhyngpersonol, empathi, a pharch at amrywiaeth.

Yn gyffredinol, mae lleoliad Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn cynnig amgylchedd dysgu unigryw a chyfoethog sy'n integreiddio natur, hanes, diwylliant ac ymgysylltiad cymunedol. Mae'n galluogi disgyblion i gysylltu â'u hamgylchedd, meithrin cariad at eu treftadaeth, a datblygu dealltwriaeth gyfannol o'r byd o'u cwmpas, gan gyfoethogi eu profiad addysgol cyffredinol.





Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr



Gweledigaeth a Gwerthoedd

Gweledigaeth

Mae Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn cyflwyno cwricwlwm sydd yn sbarduno chwilfrydedd disgyblion a rhanddeiliaid mewn awyrgylch dysgu byrlymus, ysgogol, a chynhwysol sy'n meithrin unigolion. Mae ein hymwybyddiaeth o berthyn i'n cynefin, a'n cyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd yn ganolog i'n gwaith. Annogwn yr ymdeimlad o falchder a pharch at ein hiaith, ein Cymreictod a'n hunaniaeth. Rydym yn arloesol yn ein dulliau wrth fagu a datblygu sgiliau a fydd yn ein paratoi ar gyfer bywyd fel unigolion cyflawn mewn byd sydd yn gyson newid.

Ein Gwerthoedd Craidd

Hapus

• Rydym yn blaenoriaethu creu amgylchedd cadarnhaol a meithringar sy'n meithrin hapusrwydd ymhlith myfyrwyr, gan gydnabod bod plant hapus yn fwy tebygol o ffynnu yn academiaidd ac yn gymdeithasol.

Diogel

• Rydym yn creu amgylchedd meithringar lle mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn, yn gorfforol ac yn emosiynol, ac yn cael eu hannog i fynegi eu hunain yn rhydd heb ofni gwahaniaethu neu niwed.

Llewyrchus

• Rydym yn darparu amgylchedd cefnogol a chynhwysol sy'n meithrin llwyddiant academiaidd, lles emosiynol, a chyfleoedd ar gyfer twf personol, gan rymuso ein myfyrwyr i ffynnu a chyrraedd eu llawn botensial

Cynhwysol

• Rydym yn creu amgylchedd diogel a chroesawgar lle mae pob plentyn, beth bynnag ei gefndir, gallu, neu hunaniaeth, yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu, a'i gynnwys ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dwyieithog

• Rydym yn hyrwyddo cariad tuag at yr iaith Gymraeg a datblygu dysgwyr dwyieithog sy'n gallu byw bywyd bob dydd gan ddefnyddio dwy iaith.

Parch

• Rydym yn parchu unigoliaeth, safbwyntiau a theimladau eraill ymhob agwedd ar fywyd yr ysgol ac hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cynhwysol a chefnogol i'r holl ddisgyblion, staff a rhanddeiliaid.



Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr



Datganiad o Genhadaeth

Rydym yn . . .

*'Meithrin unigolion cyflawn
mewn awyrgylch gofalgarg ac
ysgogol'*



Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr

Arwyddair yr Ysgol



*'Law yn llaw,
agorwn ddrysau'r
dyfodol'*



Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr



Y Pedwar Diben

4 Diben Cwricwlwm i Gymru ydy craidd a chalon Cwricwlwm Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr.

Dysgwyr Uchelgeisiol,
Galluog

Cyfranwyr Mentrus,
Creadigol

Y Pedwar
Diben

Dinasyddion
Egwyddorol, Gwybodus

Unigolion Iach,
Hyderus



Y Pedwar Diben



Yn unigolion iach, hyderus sydd:

- *â gwethoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol
- *yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- *yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corf far iechyd corfforol a meddyliol y neu bywyd pob dydd
- *yn gwybod sut i ddod o hyd l'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i adw'n ddiogel ac iach
- *yn cymryd rha mewn gweithgarwch corfforol
- *yn gwneud penderfyniadau pwyllog
- ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- *â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- *yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol
- wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- *yn wyebu heriau ac yeu goresgyn
- *â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw

Gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:

- *cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i gru syniadau a chynnyrch
- *meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- *adnabod cyfleoedd ac yn manteisioarnyn nhw
- *mentro'n bwylllog
- *arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
- *mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol hyfryngau
- *rhoi o'u hegri a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa

Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:

- *gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac y neu mwynhau
- *datblydu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau
- *ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
- *gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a Saesneg
- *gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdany'n nhw
- *gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- *deal sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau maethemategol
- *defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rhannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi
- *ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:


- *canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- *trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- *deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- *deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- *yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- *parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- *dangos eu hymrwymiad i sicrhau cyaladwyedd y blaned



Chwe Maes Dysgu a Phrofiad



Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad:






Sgiliau Trawsgwricwlaidd



Mae ein cwricwlwm yn mewnblannu y sgiliau traws-gwricwlaidd statudol – Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol. Datblygwn y sgiliau hyn o fewn ac ar draws y cwricwlwm gan ddarparu cyfleoedd i gymhwyso ac ymestyn y sgiliau hyn.





Sgiliau Cyfannol



Sgiliau cyfannol - Mae'r rhain yn sail i'r Pedwar Diben ac fe'u datblygir trwy ystod o ddysgu ac addysgu

Creadigrwydd ac
Arloesi



Effeithiolrwydd
Personol



Sgiliau
Cyfannol



Meddwl yn
Feirniadol a
Datrys Problemau




Cynllunio a
Threfnu



Themau Trawsgwricwlaidd



Themâu Trawsgwricwlaidd - Mae'r rhain yn elfennau pwysig o'n cwricwlwm ysgol





Elfennau Gorfodol Ein Cwricwlwm



Elfennau Gorfodol

Crefydd,
Gwerthoedd
a
Moeseg

Perthynas ac
Addysg
Rhywioldeb

Cymraeg

Saesneg

Elfennau Gorfodol - Mae'r rhain yn elfennau pwysig o'n cwricwlwm
ysgol



Elfennau Gorfodol Ein Cwricwlwm



Gofynion Ehangach

*Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol
(Cymru) 2015*

*Confensiwn y
Cenhedloedd
Unedig ar
Hawliau'r Plentyn*

*Deddf Anghenion
Dysgu
Ychwanegol a'r
Triblwnlys
Addysg (Cymru)
2018*

*Gofynion Ehangach- Mae'r rhain yn elfennau pwysig o'n cwricwlwm
ysgol*



Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig



Byddwn yn defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i gynllunio a datblygu ein cwricwlwm ysgol o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae 27 datganiad

	Iechyd a Lles (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.	Iechyd a Lles (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.	Iechyd a Lles (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
Iechyd a Lles (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapia pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.	Iechyd a Lles (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae deal ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.	Y Dyniaethau (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.	Y Dyniaethau (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chant eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
Y Dyniaethau (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Y Dyniaethau (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.	Y Dyniaethau (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.	Mathemateg a Rhifedd (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
Mathemateg a Rhifedd (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd maethemategol.	Mathemateg a Rhifedd (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.	Mathemateg a Rhifedd (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.	Y Celfyddydau Mynegiannol (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
Y Celfyddydau Mynegiannol (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfda, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.	Y Celfyddydau Mynegiannol (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyr, ysbrydoliaeth a dychymyg.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfyeigi ffenomenau.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig) Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.



Dilyniant ac Asesu



Mae asesu yn rhan annatod o'n cynlluniau cwricwlwm yn Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr. Rydym yn glir mai diben asesu yw cefnogi pob dysgwr unigol i symud ymlaen yn briodol yn eu datblygiad a'u dysgu, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny.

Mae ein cwricwlwm, a gefnogir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn Maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau. Mae'n cael ei lywio gan y Cod Cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein hymagwedd at asesu, a'i ddiben yw llywio cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu yn cael ei wreiddio fel rhan gynhenid o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol. Cefnogir cynnydd ac asesir pob dysgwr yn barhaus ac yn gyfannol.

Gwnawn ddefnydd o amrywiaeth o strategaethau asesu ffurfiannol, ffurfiol a chrynodol wrth ffocysu ar gynnydd pob plentyn unigol trwy:

- Gynllunio pwrpasol sy'n cynnwys llais y disgybl, gan werthuso a mireinio yn gyson
- Amrywiaeth o adborth adeiladol
- Asesu parhaus sy'n bwydo'r cynllunio
- Arsylwadau o dasgau ac unigolion
- Trafodaethau gyda dysgwyr a staff
- Gwahaniaethu pwrpasol i dargedu ac ymestyn y dysgu
- Amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu
- Defnydd o asesiadau personol Bl-2-6 ar Waelodlin Meithrin a Derbyn



Rydym yn asesu am dri rheswm allweddol i:

- gefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd
- nodi, cipio a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arfer gorau posib i bawb
- tracio cynnydd ein disgyblion er mwyn cefnogi pawb i ddatblygu'n gyson, a sicrhau bod y ddarpariaeth gorau posib yn ei le i bawb.



Cylch Asesu

*Edrychwn yn ôl i
a oedd ein
strategaethau
addysgu yn
llwyddiannus a pha
newidiadau y
gallwn eu gwneud
i wella'r addysgu,
dysgu a chynnydd
a dulliau asesu.*

Myfyrio

Cynllunio'r
dysgu,
addysgu a'r
asesu

*Rydym yn mireinio
ein strategaethau a
thechnegau
hyfforddi i helpu
pob dysgwr i
gyflawni
meistrolaeth.*

Y Dysgwr

*Rydym yn
datblygu dulliau
i asesu a yw
ein dysgwyr yn
dysgu'r
deunydd/sgiliau.*

Asesu a mesur
cynnydd
dysgwyr

Addysgu /
Addysgeg

*Rydym yn
defnyddio
egwyddorion
addysgeg i helpu
ein dysgwyr i
ddysgu.*



Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr



Ein Cwricwlwm Cynhwysol

Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael eu cefnogi ac i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Mae addysgu a dysgu da yn rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY yn fanwl a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Rydym yn cydnabod bod pob disgybl yn dod i'r ysgol ar wahanol gyfnodau o ddatblygiad a chyda gwahanol anghenion. Tra bod llawer o ffactorau yn cyfrannu at yr ystod o anawsterau a brofir gan rai plant, credwn y gellir gwneud llawer i'w goresgyn wrth i rieni, athrawon a disgyblion gydweithio.

Mae ysgolion cynhwysol yn creu cymuned lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi a'i drin â pharch. Maent yn meithrin ymdeimlad o berthyn sy'n cymell pob dysgwr i gymryd rhan mewn amgylchedd dysgu sy'n seiliedig ar y pedwar diben, ac i gyfrannu at yr amgylchedd dysgu hwnnw. Mae'r arferion dysgu, addysgu ac asesu yn hyblyg ac amrywiol er mwyn ymateb i anghenion, diwylliannau a diddordebau amrywiol yr holl ddysgwyr.




Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr



Addysgeg

Mae addysgeg wrth wraidd cwricwlwm. Wrth gynllunio ein cwricwlwm, ystyriwn y dulliau addysgegol y bydd angen eu defnyddio i gefnogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben. Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy ddylunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgegol.

Caiff ein proses o gynllunio cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr ei hategu gan ddeuddeg egwyddor addysgegol, sy'n datgan bod dysgu ac addysgu da yn:



Mae addysgu a dysgu da yn :

canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm

rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd

galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol

golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol

golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb

creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu

golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu

ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad

cryfhau y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn gyson, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i'w hymarfer

cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain

hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol


hybu cydweithio



Addysgeg

Dylai addysgeg effeithiol, sy'n rhoi'r lle canolog i'r dysgwr ac sydd â'r deuddeg egwyddor addysgegol yn sail iddi, fod yn un sy'n ymateb, yn un sy'n ddeinamig ac yn un sydd wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf.

Nid oes pwyslais ar unrhyw ddulliau addysgu penodol: mae penderfyniadau ynghylch addysgu a dysgu'n ymwneud yn benodol iawn â chyd-destunau a dibenion, ar wybodaeth athrawon o'u disgyblion, diddordebau'r disgyblion a'r angen efallai am gyfuniad o ddulliau er mwyn cyrraedd pawb.





Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr



Ei'n Cwricwlwm

Wrth gynllunio ein cwricwlwm, ystyri'r y cwestiwn-eiriau 'PAM', 'SUT' a 'BETH'.

'Beth' ein cwricwlwm

- Cwricwlwm yw gwraidd dysgu ac addysgu ein hysgol. Dull o feddwl gysylltiedig yw ein cwricwlwm er mwyn gwireddu ein gweledigaeth i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, moesol ac yn iachus.
- Mae ein cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn addas i ddysgwyr o bob oed, gallu a dawn. Mae'n gosod y dysgwr yn ganolog ac mae'n canolbwyntio ar anghenion a diddordebau dysgwyr unigol.
- Mae'n hyblyg ac yn gynhwysol. Darpara ddilyniant priodol ar gyfer pob dysgwr ac mae'n cynnwys ystod o ddarpariaethau er mwyn sicrhau hyn.
- Mae'n rhoi strwythur i ddysgu ar draws camau datblygiad dysgwr ac yn hyrwyddo datblygiad sgiliau.
- Mae asesu a gwerthuso yn rhan annatod o'n cwricwlwm.
- Mae 'llais y plentyn' yn allweddol.
- Mae ein cwricwlwm yn sicrhau 'BWRLWM' dysgu gyda'n cynefin a'n Cymreictod yn ganolog i'n themau.

'Pam' ein cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm yn -

**'meithrin unigolion
cyflawn mewn awyrgylch
gofalgar ac ysgogol'**

Mae ein cwricwlwm yn sicrhau bod ein disgyblion yn :

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- unigolion iach, hyderus
- gyfranwyr mentrus, creadigol
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus

'Sut' ein cwricwlwm

- Llais y plentyn a rhanddeiliaid yn ganolog.
- Datblygu diwylliant ysgol cadarnhaol a chynhwysol sy'n hybu parch, caredigrwydd ac empathi.
- Darparu ymagwedd bersonol at addysg sy'n gosod y dysgwr yn ganolog ac sy'n canolbwyntio ar gryfderau, anghenion a chymau nesaf pob plentyn.
- Profiadau eang a chytbwys sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol y dysgwyr.
- Datblygiad proffesiynol ac ymchwil.
- 12 egwyddor addysgeg.
- Dysgu ac addysgu effeithiol.
- Cydweithio a dysgu wrth eraill.
- Rhwydweithio proffesiynol.
- Dulliau asesu effeithiol.
- Gwerthuso a myfyrio.
- Meddylfryd Tŵf.



Adolygu a Mireinio



Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i ymholiadau proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol.

Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

